



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
NHS Trust

**COFNODION HEB EU CADARNHAU CYFARFOD AGORED
BWRDD YMDDIRIEDOLAETH GIG GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU A
GYNHALIWYD DDYDD IAU 30 GORFFENNAF 2015, YN SEFYDLIAD MEDDYGOL
WRECSAM YN Y GANOLFAN PARC TECHNOLEG, WRECSAM**

AELODAU'R BWRDD
YN BRESENNOL:

Martin Woodford	Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd (cadeiriodd y cyfarfod)
Emrys Davies	Cyfarwyddwr Anweithredol
Kevin Davies	Cyfarwyddwr Anweithredol
Mick Giannasi	Cadeirydd y Bwrdd (ymunodd o Gofnod 46/15)
Judith Hardisty	Cyfarwyddwr Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad (ymunodd o Gofnod 46/15)
Sara Jones	Cyfarwyddwr Ansawdd a Nyrsio
Brendan Lloyd	Cyfarwyddwr Meddygol
John Morgan	Cyfarwyddwr Anweithredol (Gadawodd ar ôl Cofnod 49/15)
James Mycroft	Cyfarwyddwr Anweithredol
Patsy Roseblade	Cyfarwyddwr Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)
David Scott	Cyfarwyddwr Anweithredol

CYNRYCHIOLWYR
BWRDD YR
YMDDIRIEDOLAETH:

Hugh Bennett	Penaeth Cynllunio a Pherfformiad
Hannah Evans	Pennaeth Datblygu Strategol a Chymorth
Nathan Holman	Cynrychiolydd ochr y staff
Lois Hough	Uwch Swyddog Cyfathrebu
Richard Lee	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Interim Gweithrediadau (Moderneiddio Clinigol) (Gadawodd ar ôl Cofnod 47/15)
Steve Owen	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol
Carl Powell	Arweinydd Tîm Clinigol (Gadawodd ar ôl Cofnod 47/15)
Bleddyn Roberts	Cynrychiolydd ochr y staff
Gordon Roberts	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Interim Gweithrediadau (Gwasanaethau Meddygol Brys)
Dawn Sharp	Ysgrifennydd Corfforaethol
Jonathan Sweet	Swyddog Staff, Gweithrediadau (Ymunodd o Gofnod 50/15)
Claire Vaughan	Cyfarwyddwr Cyswllt Gweddnewid y Gweithlu
Jonathan Watts	Cyfarwyddwr Cyswllt Portffolio a Rhaglenni

YMDDIHEURIADAU

Mike Collins	Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Mike Coupe	Cyfarwyddwr Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad
Pam Hall	Cyfarwyddwr Anweithredol
Nigel Heal	Cynrychiolydd ochr y staff

ARSYLWYR

Aled Wyn Davies
Dorothy Edwards
Russell Jackson

Cynrychiolydd Cyngor Iechyd Cymuned Powys
Arweinydd Prosiect 111 Project
Cynrychiolydd Cyngor Iechyd Cymuned Sir y Fflint

43/15 CROESO A DIWEDDARIAD GAN YR IS-GADEIRYDD

Croesawodd yr Is-gadeirydd bawb i'r cyfarfod. Oherwydd problem dechnegol â'r offer cyfieithu cytunwyd nad oedd gwasanaeth y cyfieithydd yn cael ei defnyddio, yn anffodus.

Mynegodd yr Is-gadeirydd ei lawenydd ynghylch y gwelliant dramatig mewn amseroedd ymatebo dros y chwe mis diwethaf. Roedd ymdeimlad cynyddol o hyder ymhlith rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru ynghylch yr Ymddiriedolaeth a'i harweinyddiaeth. Ymhellach, roedd y cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru ynghylch symud at darged sy'n canolbwyntio ar yr elfen glinigol wedi bod yn fyneigiant hyder enfawr yn yr Ymddiriedolaeth.

Hysbyswyd y Bwrdd am ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru a gadarnhaodd fod dros 90% o'r 10,000 o aelodau'r cyhoedd a ymatebodd wedi bod yn fodlon â'r gwasanaeth a dderbyniasant.

Pwysleisiodd yr Is-gadeirydd bwysigrwydd canolbwyntio ar berfformiad a pharhau i weithio tuag at Gynllun Integredig Tymor Canolig a oedd yn barod i'w lofnodi.

PENDERFYNWYD: Nodi'r diweddariad.**44/15 DIWEDDARIAD GAN Y PRIF WEITHREDWR**

Yn absenoldeb y Prif Weithredwr darparodd Brendan Lloyd, Cyfarwyddwr Meddygol, y diweddariad isod i'r Bwrdd:

Perfformiad - Gofynnwyd i'r Bwrdd gydnabod y gwella parhaus a chofnodi diolchiadau i bawb fu'n ymwneud â hyn, yn enwedig Gordon Roberts, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Interim Gweithrediadau (Gwasanaethau Meddygol Brys) am hoelio sylw ar hyn yn ddiflino.

- Y Model Clinigol – roedd hwn yn newid enfawr o ran cyflawni perfformiad. Bu hir ymaros am y pwyslais ar fesur canlyniadau clinigol a phrofiad y claf a'r hyn mae'r Ymddiriedolaeth yn ei wneud ar ran cleifion ac roedd yn gam hynod bositif wrth symud ymlaen. Roedd y cynllun peilot ar fin dechrau ar 1 Hydref 2015 ar sail Cymru gyfan.
- Cynllunio – roedd y Cynllun Cyflawni Lleol yn cael ei ddatblygu ymhellach a rhagor o gynnydd yn cael ei wneud o ran y Cynllun Integredig Tymor Canolig wrth fynd ymlaen.
- Cludiant i Gleifion nad ydynt yn gleifion argyfwng – roedd y gwaith ynghlwm â hyn yn parhau ac roedd yn ofynnol i'r Bwrdd gydnabod y gwaith hwn.
- Cydweithredu – dylai'r Bwrdd nodi'r cynnydd mewn cydweithredu, yn enwedig â'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlansys Brys.

PENDERFYNWYD: Nodi'r diweddariad.

45/15 MATERION GWEITHDREFNOL

Cofnodion – Agored 4 Mehefin 2015

Cofnod 39/15

Tudalen 4 dan 'cynllun arbedion', pwynt bwled nesaf at yr olaf: Dileu'r gair 'priodol' a chynnwys 'wedi eu cytuno'n llawn'

Tudalen 5 dan 'Cyfalaf', ail baragraff, ychwanegu'r frawddeg a ganlyn: 'Roedd gan y Bwrdd bryderon difrifol ar ôl cael eu cynghori am y cwtogiad potensial o 50% i'r rhaglen adnewyddu cerbydau.'

Tudalen 5 dan 'Cyfalaf', ail baragraff, y frawddeg olaf. Ychwanegu'r gair 'a effeithir' ar ôl cerbydau a dileu 'naw' ac ychwanegu 'wyth'.

Tudalen 5 dan 'Cyfalaf', paragraff olaf ond un, ail frawddeg: Cynnwys y gair 'darpariaeth' cyn lledaenu.

Cofnod 40/15

Tudalen 6 paragraff olaf on un: Dileu yn ei gyfanwydd a chynnwys 'Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyswllt Portffolio a Rhaglenni y byddai'r Bwrdd yn derbyn adroddiad gwireddu buddion interim ar gyfer y Rhaglen Trawsnewid Strategol, sydd bellach wedi cau, yn ei gyfarfod yng Ngorffennaf. Cadarnhawyd y byddai'r buddion hyn wedi yn dod yn rhan o'r portffolio newid Cynllun Integredig Tymor Canolig ehangach ac y byddai adroddiadau arnynt o dro i dro fel rhan o'r mecanweithiau adrodd ehangach ar y Cynllun Integredig Tymor Canolig i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.'

Tudalen 7 Dileu'r ail bwynt bwled yn ei gyfanwydd a chynnwys: 'A oedd adnewyddu'r system dyrannu ambiwlans â chymorth cyfrifiadur (CAD) y hwn hwn i sgôp y cynllun fel yr awgryma'r dogfennau portffolio presennol? Cadarnhawyd fod y CAD ar y cam ysgrifennu'r cynllun busnes ar hyn o bryd a phan/phetai'r achos busnes hwn yn cael ei gymeradwyo byddai'r gwaith yn dod yn brosiect ffurfiol ac o fewn sgôp y portffolio newid.'

Tudalen 7 Dileu'r pedwerydd pwynt bwled yn ei gyfanwydd a chynnwys: 'Gofynnwyd am eglurder o ran a oedd datblygu llwybrau gofal amgen yn sgôp y cynllun. Cadarnhawyd fod datblygu llwybr yn ffurfio rhan o'r rhaglen Moderneiddio Clinigol ac yn benodol yn y Grŵp Cynghori ar Lwybrau Clinigol newydd a grewyd.'

Cofnod 41/15

Tudalen 8 paragraff terfynol: Ychwanegu'r gair 'Pwyllgor' o flaen Archwilio.

Cofnod Gweithredoedd

Trafododd yr aelodau y gweithredoedd unigol a gynhwyswyd yn y Cofnod Gweithredoedd a ddiweddarwyd i adlewyrchu'r materion a godwyd. Bu'r aelodau yn trafod y fethodoleg a ddefnyddiwyd o ran statws y gweithredoedd a chytunwyd, os oedd gweithred wedi ei chwblhau, yn dylid adlewyrchu hynny yn y golofn statws i osgoi unrhyw amwysedd.

Cofrestr Defnyddio'r Sêl

Roedd y trafodion isod lle'r oedd yn ofynnol defnyddio sêl yr Ymddiriedolaeth wedi digwydd ers yr adroddiad diwethaf i'r Bwrdd ar 19 Tachwedd 2014:

- Rhif 0145 - Gwerthu Gorsaf Ambiwllans Maesteg
- Rhif 0146 - Gorsaf Ambiwllans Treffynnon – trosglwyddo perchnogaeth
- Rhif 0149 - Gorsaf Ambiwllans Porthmadog – adnewyddu prydles
- Rhif 0149a - Prydleus Gorsaf Ambiwllans Dwyrain Caerdydd

PENDERFYNWYD:

- (1) **nodi datganiad sefydlog Mr Emrys Davies fel aelod wedi ymddeol o UNITE;**
- (2) **cadarnhau Cofnodion sesiwn Agored a Chaeedig cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd ar 8 Mai a 4 Mehefin 2015 fel cofnod cywir yn amodol ar yr addasiadau a ddisgrifwyd uchod;**
- (3) **gweithredu'r addasiadau i'r cofnod gweithredoedd fel a ddisgrifiwyd; a**
- (4) **nodi defnyddio sêl yr Ymddiriedolaeth fel a ddisgrifiwyd.**

46/15 DADEBRU YMATEB CYFLYM (3RU) – CYFLWYNIAD

Croesawodd yr Is-gadeirydd Richard Lee a Carl Powell i'r cyfarfod. Cafodd y Bwrdd gyflwyniad gan Carl Powell a oedd yn tynnu sylw at y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan yr Uned Dadebru Ymateb Cyflym (3RU). Roedd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar y digwyddiadau yn gysylltiedig â Pauline, dynes hanner cant oedd mewn iechyd da tan hyn, a rôl yr Uned Dadebru Ymateb Cyflym yn darparu triniaeth achub bywyd.

Am 14:43:20 derbyniwyd galwad 999 yng Nghanolfan Cyswllt Clinigol Llanfairfechan gan deulu Pauline a oedd wedi dod o hyd iddi mewn llewyg yng nghartref y teulu yn ardal Caerdydd. Trosglwyddwyd yr alwad i'r Ganolfan Cyswllt Clinigol yn Nhŷ Vantage Point yng Nghwmbrân.

Rhodddwyd yr alwad i barafeddyg Cerbyd Ymateb Cyflym yn gweithio yng Nghaerdydd, a oedd hefyd yn rhan o'r tîm Dadebru Ymateb Cyflym a ddyrannwyd i'r alwad. Roedd derbynnydd yr alwad, a oedd wedi dilyn y System Anfon ar sail Blaenoriaeth Feddygol, wedi adnabod fod Pauline wedi cael trawiad ar y galon ac roedd yn rhoi cyngor adfywio cardio-pwlmonaidd i'r perthnasau. Anfonwyd parafeddyg arall a oedd yn gweithio yn y cerbyd treialu Dadebru Ymateb Cyflym yng Nghaerdydd i'r digwyddiad gan ei bod yn fwyfwy amlwg gan y galwr fod hwn yn alwad o'r flaenoriaeth uchaf. Cyrhaeddodd y parafeddyg cyntaf y cyfeiriad bedwar munud a 14 eiliad ar ôl derbyn yr alwad a chynhaliodd arolwg sylfaenol ar unwaith a dechrau ar gamau achub bywyd sylfaenol gyda chymorth aelodau'r teulu.

Cyrhaeddodd yr ail barafeddyg yn fuan iawn wedyn yn y cerbyd Uned Dadebru Ymateb Cyflym. Ailaseswyd y claf a gwnaed penderfyniad i ddefnyddio dyfais adfywio cardio-pwlmonaidd awtomatig ar y claf.

Am 15:17 gosodwyd Pauline yn yr ambiwlans a'i chludo i Ysbyty Athrofaol Cymru, a rhybuddiwyd yr Adran Frys a'r ward cardioleg am ei chyflwr ymlaen llaw. Cyrhaeddodd

Pauline a thri chriw ambiwlans yr Adran Frys am 15:27 lle'r oedd tîm adfywio yn aros, yn cynnwys ymgynghorwyr o anestheteg, yr Adran Frys, cardioleg a thîm o staff nyrsio ac arbenigwyr.

Arhosodd Pauline yn yr Uned Therapi Dwys am tua tair wythnos a bellach roedd yn gwneud adferiad iechyd llwyr gartref.

Gofynnodd yr Is-gadeirydd am sylwadau gan aelodau'r Bwrdd:

- A ddefnyddiwyd diffibriliwr ar Pauline – yn ystod yr adfywio rhoddwyd un sioc iddi ond yr Adfywio Cardio-Pwlmonaidd a ddarparodd y cylchrediad digymell. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Meddygol fod hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd yn hanfodol bwysig i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch ei effeithiau cadarnhaol. Ychwanegodd Carl fod Sefydliad Prydeinig y Galon yn weithgar yn anfon pecynnau hyfforddiant i gymunedau i'w defnyddio ac atal yr ofn o gynnal adfywio cardio-pwlmonaidd.
- A oedd y lefel gwasanaeth yma oherwydd bod yn y lle cywir ar yr amser cywir neu a ellid disgwyl y lefel ymateb yma mewn lleoedd eraill yng Nghymru? Roedd yn arferol anfon dau gerbyd at achos o drawiad ar y galon, ond roedd hyn yn amrywio yn fawr ar sail adnoddau yn yr ardal.
- Roedd y galonogol er fod yr alwad wedi ei derbyn yng ngogledd Cymru ei fod wedi derbyn y lefel ymateb disgwylidig.
- Nid oedd y math yma o ymateb yn bosibl ymhob rhan o'r wlad a dyma un o'r rhesymau pam fod yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio Ymateb Cyntaf y Gymuned a'i bod yn bwysig eu datblygu'n barhaus.
- Roedd defnyddio Diffribilwyr Mynediad Cyhoeddus yn parhau i gael ei ddatblygu, ac yn cael effaith gadarnhaol mewn cymunedau.

Holodd yr Is-gadeirydd sut roedd hyn yn mynd i gael ei fwrw ymlaen a sut roedd y datblygiadau a'r llwyddiannau'n mynd i gael eu tracio. Cynghorodd y Cyfarwyddwr Meddygol y byddai papur yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli yn gyntaf yn nodi'r opsiynau o ran y llwybrau cardiaidd.

PENDERFYNWYD:

(1) nodi'r diweddariad; a

(2) nodi datblygiad parhaus yr uned Dadebru Ymateb Cyflym.

47/15 TECHNOLEG YSGRIFBINAU DIGIDOL – ADRODDIAD CYNNYDD

Rhoddwyd trosolwg i'r Bwrdd o'r sefyllfa bresennol, pwrpas a manteision yr ysgrifbinau digidol. Mae'r ysgrifbin digidol yn ei hanfod yn debyg i ysgrifbin arferol ond yn cynnwys camera sy'n cofnodi'n fanwl yr hyn a ysgrifennir gan y defnyddiwyd mewn amser real. Dywedodd y byddai'r aelodau yn cael gweld Ysgrifbin Digidol ar waith yn ystod diwrnod Datblygiad y Bwrdd ar 11 Awst 2015.

Croesawodd yr Is-gadeirydd sylwadau gan y Bwrdd:

- Roedd yr effaith yn enfawr i'r Ymddiriedolaeth o ran sut y byddai'n medru deall arferion a deilliannau clinigol, rheoli pryderon mewn modd mwy effeithlon ac ymdrin â'r modd mae'r Ymddiriedolaeth yn ymateb i faterion diogelu.
- Roedd y dechnoleg yn symud ymlaen a chroesawyd hyn. O ran cynnal ffocws critigol wrth symud ymlaen sut y disgwyliad i'r Ymddiriedolaeth fonitro hyn? Cynghorodd y Cyfarwyddwr Meddygol y byddai'r Grŵp Gweithredu Ysgrifbinau Digidol yn datblygu i fod yn Grŵp Monitro Ysgrifbinau Digidol a byddai'r wybodaeth sy'n cefnogi'r Tîm Effeithiolrwydd Archwilio Clinigol yn dod yn rhan o'r wybodaeth sy'n bwydo i mewn i'r Bwrdd Rhaglen Moderneiddio Digidol a fyddai'n caniatáu monitro adolygiadau rheolaidd y data a gofnodwyd.
- Roedd y dechnoleg hon yn newid sylweddol ac yn gam cyntaf gwych ymlaen ar hyd y llwybr tymor hir i'r Ymddiriedolaeth fedru deall yn well y prosesau a'r arferion clinigol yn yr Ymddiriedolaeth. Ni ddylid tanamcangyfrif effaith potensial yr ysgrifbinau hyn, fodd bynnag, dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried cyflwyno Cofnodion Clinigol Cleifion yn electronig fel y lefel nesaf ar y llwybr digidol esblygiadol.
- O ran symud ymlaen roedd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh wedi ei gwneud yn glir wrth Lywodraeth Cymru pan gyflwynwyd y cais gwreiddiol am yr ysgrifbinau digidol mai cam interim oedd hwn tuag at Gofnodion Clinigol Cleifion yn gyfangwbl electronig.

Ychwanegodd yr Is-gadeirydd fod y newid mewn arferion clinigol yn dilyn cyflwyno'r dechnoleg hon yn cynrychioli cyfnod cyffrous i'r Ymddiriedolaeth.

PENDERFYNWYD: Nodi'r cynnydd.

48/15 ADRODDIAD PERFFORMIAD INTEGREDIG

Amlinellodd y Pennaeth Cynllunio a Pherfformiad yr Adroddiad Perfformiad Integredig ar gyfer mis Ebrill 2015 i'r Bwrdd. Tynnwyd sylw'r Bwrdd at y prif uchafbwyntiau isod ym mherfformiad Ebrill:

- Y ffigur perfformiad yn erbyn y targed A8 oedd 59%.
- Derbyniwyd cyfanswm o 35,504 o alwadau 999.
- Cyflawnwyd 54% o'r arbedion cynlluniedig.
- Hysbyswyd Llywodraeth Cymru am bedwar digwyddiad andwyol difrifol.

Croesawodd yr Is-gadeirydd sylwadau gan Aelodau. Codwyd y pwyntiau a ganlyn:

- Roedd angen rhagor o waith ar y perfformiad Trosglwyddo i Glir a monitro i wella'r elfen hon.
- O ran y Trosglwyddo i Glir ar yr adeg hon roedd 80% yn ffigur realistig, ond roedd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Interim Gweithrediadau (Gwasanaethau Meddygol Brys) yn hyderus y byddai'r ffigur hwn yn gwella yn ystod y misoedd nesaf.
- Dylid nodi fod cyfradd salwch mis Mai wedi lleihau i oddeutu 6.2%.

Roedd yr Is-gadeirydd wrth ei fodd o glywed fod yr amser yn arwain at gyflwyno'r Adroddiad Perfformiad Integredig i'r Bwrdd yn cael ei fyrhau yn fawr yn sgîl y broses adrodd newydd.

PENDERFYNWYD: nodi'r Adroddiad Perfformiad Integredig a'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar y Fframwaith Comisiynu a'r Fframwaith Rheoli Perfformiad a Chynllunio.

49/15 ADRODDIAD CYLLID – MIS TRI 2015/16

Fel rhagair i'r adroddiad tynnodd yr Is-gadeirydd sylw'r Bwrdd at y trafodaethau parhaus yr oedd yr Ymddiriedolaeth yn eu cynnal â'r Comisiynwyr a Llywodraeth Cymru o ran sefydlogrwydd ariannol tymor hir fel sylfaen i berfformiad yr Ymddiriedolaeth a'r sefyllfa yn y flwyddyn, yn ôl eu trefn. Dylai'r Bwrdd ddefnyddio hyn fel cefndir wrth ystyried cynnwys y papurau ariannol a gyflwynir.

Adroddiad Cyllid

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh y sefyllfa derfynol ar ddiwedd mis tri. Wrth gyflwyno'r adroddiad ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod y perfformiad alldro yr adroddwyd arno am y flwyddyn hyd yma wedi ei seilio ar gyfrifon Mis Tri yr Ymddiriedolaeth ac yn dangos diffyg cadwedig o £0.978m.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh sylw'r Bwrdd at y meysydd a ganlyn yn yr adroddiad:

- Roedd cyfanswm y gordal a dalwyd am y mis yn £1.013m, lleihad o £0.011m o'r mis blaenorol, gan nodi fod £0.659m o'r £1.013m yn gostau cronus yr elfen amser dwbl.
- Roedd cost cronus cyfatebol salwch gweithredol hyd at Mis Tri yn £1.163m.
- Tynnwyd sylw'r Bwrdd at y chwe dewis yn y tabl ar dudalen pedwar yr adroddiad a oedd yn penderfynu ar yr effaith ar yr alldro ariannol diwedd y flwyddyn a'r effaith lefel uchel cyfatebol ar berfformiad gweithredol.
- Roedd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i feddu ar y gallu i fantoli'r gyllideb petai'n parhau â'i dull gweithredu presennol a heb unrhyw gymorth, fodd bynnag, byddai'n rhaid cyflwyno mesurau llym difrifol a fyddai'n cael effaith drychinebus ar berfformiad.
- Roedd gwariant tâl amrywiol digonol a gwariant ac eithrio tâl amrywiol i raddau mewn sefyllfa fel pe byddai'r Ymddiriedolaeth yn rhoi'r gorau i wneud unrhyw lefel gweithgareddau nad oedd yn wariant sylweddol h.y. dim neu fawr ddim gordal a dim darpariaeth preifat yna gallai'r Ymddiriedolaeth 'ddiffodd y tap' ond byddai hyn yn cael effaith drychinebus ar berfformiad. Fodd bynnag, fel Bwrdd, mae dyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn hon.
- Anogodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh y Bwrdd i barhau i wario ar y capasiti ychwanegol a pharhau â'r mentrau yn eu lle i gynnal y lefelau capasiti a pherfformiad yn ystod y cyfnod anodd dros Awst a oedd yn adeg pan roedd llawer o staff yn cymryd gwyliau.

Codwyd y pwyntiau a ganlyn:

- Rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd gan y Cadeirydd fod tystiolaeth ysgrifenedig o gymorth ar gael ac roedd amseriad ei rhyddhau yn dibynnu ar fater prosesau gweinyddol yn

unig.

- Darparodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh fanylion llawn i'r Bwrdd o ran y prif amrywiadau yn erbyn y cynllun blwyddyn gyfan.
- Mynegwyd pryder o ran cyflawni mantoli'r gyllideb yn unol â'r rhagfynegiad balans ariannol a holodd pam y cyflwynwyd y rhagfynegiad fel bod yn unol â'r targed. Esboniodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh ei fod yn bosibl, mewn theori. Ar ddiwedd Mis Pedwar byddai mwy o wybodaeth sylweddol yn dangos p'un ai yr oedd neu nad oedd yn mynd i gyrraedd y targed.
- Os oedd y rhagfynegiad yn cael ei ddangos yn wyrdd am fod angen iddo fod yn gyson â dychweliadau i Lywodraeth Cymru a oedd y Bwrdd erioed wedi cytuno i barhau i adrodd wrth Lywodraeth Cymru ei fod yn mynd i fantoli'r gyllideb. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh fod penderfyniad ynghylch y ffordd ymlaen gan yr Ymddiriedolaeth yn cael ei adolygu o fis i fis a bod hyn yn cael ei adrodd wrth Llywodraeth Cymru.
- Cynghorodd y Cyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd nad oedd yr Ymddiriedolaeth yn ymrwymo i opsiwn un yn y set o ddewisiadau y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol a chadarnhaodd fod yr Ymddiriedolaeth yn parhau ag opsiwn dau.
- O ran beth fyddai'n darparu sefydlogrwydd ariannol wrth symud ymlaen, cynghorodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh y Bwrdd os nad oedd yr Ymddiriedolaeth yn gwario ar fentrau ychwanegol byddai yn cadw at y cynllun, ac mai'r gwariant ychwanegol oedd yn mynd â'r Ymddiriedolaeth i sefyllfa orwario. Roedd y cynllun recriwtio yn cael ei ddatblygu ymhellach a fyddai'n nodi'r costau ac a fyddai'n dangos sut y gallai'r Ymddiriedolaeth adal y costau premiwm ychwanegol a symud i sefyllfa o gostau safonol ar gyfer yr holl weithgareddau roedd yn eu darparu. Y cam nesaf yn y broses ailadroddus oedd sicrhau fod y cynllun recriwtio a'r cynllun gweithlu yn adlewyrchu'r newidiadau a fyddai'n angenrheidiol i'r model clinigol wrth symud ymlaen.
- Cynghorodd y Cyfarwyddwr Cyswllt Gweddnewid y Gweithlu y Bwrdd mai'r ffactorau critigol yr oeddynt yn gweithio arnynt oedd yr effaith a dealltwriaeth o'r rotas gwaith, y Gwasanaeth Gofal Brys a Cherdyn 35. Unwaith y bydd y ffactorau hyn wedi eu datblygu ymhellach gellid llofnodi'r cynllun recriwtio ar ei ffurf derfynol.
- Bu'r aelodau'n trafod syniadau arloesi y staff a ddaeth i'r amlwg fel rhan o ddiwrnod Datblygiad y Bwrdd ym mis Mai ac roedd y rhain yn y broses o ystyried eu sgôp. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ar adeg pan fo'r syniadau wedi eu datblygu yn llawn.
- Mynegwyd pryder o ran amserlen trosi'r cynllun yn bersonél go iawn a oedd wedi eu hyfforddi ac yn weithredol. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Cyswllt Gweddnewid y Gweithlu y Bwrdd fod ffactorau niferus yn effeithio ar recriwtio, serch hynny, y teimlad oedd fod yr Ymddiriedolaeth mewn gwell sefyllfa nag yn flaenorol. Atgoffodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh y Bwrdd am y swm sylweddol o waith a wnaed a oedd yn golygu fod yr Ymddiriedolaeth wedi cyrraedd pwynt lle'r oedd yn deall ei ofynion recriwtio yn llawn a fyddai'n caniatáu iddi gyrraedd sefydlu hyn wedi ei gyllido a deall amseru'r personél hynny oedd yn cael eu recriwtio yn dod yn staff gweithredol. Byddai'r cynllun recriwtio cyfredol yn dod â ffigur sefydliad yr Ymddiriedolaeth i oddeutu 50% o'r swyddi gwag wedi eu cyllido ac felly byddai'r Ymddiriedolaeth yn parhau yn ddibynnol ar lefel o ordal a darpariaeth breifat tan ddiwedd y flwyddyn

ariannol.

Atgoffodd yr Is-gadeirydd y Bwrdd am y chwe opsiwn y cyfeiriwyd atynt yn gynharach a mynegodd sefyllfa'r Bwrdd sef ei fod yn anhapus ag opsiynau tri i chwech gan y byddent oll yn cael effaith negyddol ar ddarparu gwasanaethau yn y flwyddyn gyfredol. Byddai'r ddau opsiwn ymarferol oedd yn weddill yn gadael yr Ymddiriedolaeth yn parhau'n ddibynnol ar gymorth ariannol i fantoli'r gyllideb. Roedd y Bwrdd yn ymwybodol o'i ymrwymadau ei hun i leihau'r diffyg cyn belled ag y bo modd heb iddo gael effaith ansoddol negyddol drwy uchafu'r arbedion a wireddwyd ac ystyried cynlluniau wrth gefn. Yn ychwanegol, roedd y Bwrdd hefyd yn ymwybodol o'i ymrwymadau eraill o ran ailsiapio gwario aneffeithlon yn wario effeithlon.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh sicrwydd i'r Bwrdd nad oedd yr arbedion ychwanegol, er enghraifft yr elw ar waredu eiddo, wedi eu cynnwys yn y cynllun ac felly byddent yn cefnogi'r arbedion disgwyledig cyffredinol o ran darpariaeth.

Ychwanegodd yr Is-gadeirydd fod yr Ymddiriedolaeth wedi cydnabod ei ymrwymiad i ddarparu'r cynlluniau arbedion yr oedd wedi ymrwymo iddynt ar ddechrau'r flwyddyn ac roedd hyn yn cael eu fonitro drwy gyfrwng y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau.

Cyfalaf Disgresiynol 2015/16

Darparodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh drosolwg o'r Rhaglen Cyfalaf Disgresiynol ar gyfer 2015/16 i'r Bwrdd a gofynnodd i'r Bwrdd gymeradwyo'r argymhellion isod.

Asesiad Risg Caffael Cerbydau ac Opsiynau Ariannol (2015/16)

Diweddarodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh y Bwrdd gyda manylion am ganlyniadau asesiadau risg o ran yr Achos Cyfiawnhau Busnes ar gyfer adnewyddu cerbydau yn cael eu gwtogi 50%.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Interim Gweithrediadau (Gwasanaethau Meddygol Brys) fod y sefyllfa hon yn cyflwyno her arwyddocaol i'r Ymddiriedolaeth o ran y costau cynnal a chadw cerbydau uwch.

Cyfeiriwyd at y cerbydau brys a ddefnyddir gan Wasanaeth Ambiwlans yr Alban, gyda'r corff o wneuthuriad safonol yn hytrach na siasi cab a chefn wedi'i addasu, fel a ddefnyddir gan yr Ymddiriedolaeth. A fyddai'n bosibl ystyried hyn fel modd o arbed arian? Hysbysodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh y Bwrdd fod gwaith cefndir sylweddol wedi ei wneud i benderfynu ar y ffordd fwyaf cost effeithiol o fynd ymlaen drwy ddefnyddio ymgynghorwyr allanol.

O ran y cerbydau'n hŷn roedd mwy o bosiblwydd y byddent yn torri i lawr wrth gyrraedd lleoliad y claf, a allai gael effaith andwyol ar ganlyniadau clinigol y cleifion.

PENDERFYNWYD:

- (1) nodi'r sefyllfa ariannol a adroddwyd ar gyfer Mis Tri, a'r prif risgiau cysylltiedig;
a**
- (2) cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf Ddisgresiynol ar gyfer 2015/16 fel a gymeradwywyd gan y Tîm Rheoli Gweithredol;**
- (3) cymeradwyo gwariant y cais BID008, £961k, ar gyfer diffibrilwyr;**

- (4) **nodi cynnwys a chanlyniad yr asesiad risg ac opsiynau ariannol caffael cerbydau;**
- (5) **bod y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn monitro'r rhaglen adnewyddu cerbydau; a**
- (6) **bod yr Ysgrifennydd Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh, yn trefnu dyddiad ar gyfer cyflwyno'r adroddiad ar syniadau arloesi'r staff mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.**

50/15 Y CYNLLUN INTEGREDIG TYMOR CANOLIG

Darparodd y Cyfarwyddwr Cyswllt Portffolio a Rhaglenni ddiweddariad i'r Bwrdd o ran y Cynllun Integredig Tymor Canolig a'i fonitro tra'n cydnabod fod trafodaethau'n parhau i sicrhau cymeradwyo'r cynllun. Hefyd cynghorodd y Bwrdd am yr adborth a dderbyniwyd gan y Gweinidog Iechyd o ran y cynlluniau a gyflwynwyd, a thra nad oedd y Gweinidog mewn sefyllfa i gymeradwyo'r cynllun eto roedd yn sylweddoli y bu'n flwyddyn arwyddocaol i'r Ymddiriedolaeth a rhoddodd sicrwydd y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio â'r Ymddiriedolaeth i ddarparu model gwasanaeth sefydlog â manteision gweladwy i'r cleifion a'r staff fel ei gilydd.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Cyswllt Portffolio a Rhaglenni sylw'r aelodau at adroddiad ar y bwrdd a oedd yn darparu crynodeb lefel uchel o'r cynllun wrth symud ymlaen, a chynigiwyd defnyddio hwn fel y cyfrwng i ddarparu sicrwydd i'r Bwrdd ar sail rheolaidd. Roedd y cynnwys yn cwmpasu crynodeb lefel portffolio o ran y penawdau, gwaith mewn llaw, y prif gerrig milltir, gweithredoedd a gyflwynwyd, unrhyw lithriadau, crynodeb rhaglenni lefel uchel a'r prif risgiau sy'n wynebu'r portffolio gyda'r gweithredoedd lleihau'r risgiau a weithredwyd wedi eu rhestru. Y neges glir oddi wrth Llywodraeth Cymru oedd ei bod yn hanfodol bwysig i'r Ymddiriedolaeth fod â chynllun tair blynedd wedi ei gymeradwyo ar gyfer y flwyddyn nesaf. Nid oedd yr adroddiad a oedd yn cael ei gyflwyno yn cynrychioli monitro cyflawn y Cynllun Integredig Tymor Canolig, roedd yn canolbwyntio ar yr elfennau newid.

Cynghorodd y Pennaeth Datblygu Strategol a Chymorth y Bwrdd mai ei bwriad oedd cyflwyno fersiwn arall o'r cynllun i'r Bwrdd ei lofnodi'n derfynol ym mis Medi 2015. Cafwyd adborth cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiynydd ac roedd aliniad clir â'r fframwaith ac roedd yn edrych fel cynllun. Cydnabuwyd y cynnydd a wnaed, serch hynny, anogwyd yr Ymddiriedolaeth i beidio â cholli ffocws ar y broses gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd gan y Pennaeth Datblygu Strategol a Chymorth fod gwaith wedi dechrau i ddatblygu'r blociau adeiladu i symud ymlaen i sefydlu cynllun cymeradwy ar gyfer y flwyddyn nesaf. Ymhellach, cynghorodd y Pennaeth Datblygu Strategol a Chymorth y Bwrdd am y mecanweithiau yn eu lle a fyddai'n cael eu rhannu â'r partïon â diddordeb yn y cynllun wrth symud ymlaen drwy gydol y siwrne datblygu'r cynllun.

Croesawodd yr Is-gadeirydd sylwadau gan y Bwrdd:

- Roedd y Bwrdd wedi eu plesio fod yr adroddiad yn darparu'r sicrwydd angenrheidiol, ac roedd ymhell ar y blaen i adroddiadau eraill a gyflwynwyd yn y gorffennol ac yn dangos cam cadarnhaol a choncrit wrth symud ymlaen.
- O ran y status quo, pa effaith gafodd y cyhoeddiad ddoe ar y rotas gwaith ac a fyddai hynny'n cael effaith andwyol ar ddatblygiad y cynllun. Cynghorodd y Cyfarwyddwr Cyswllt Gweddnewid y Gweithlu y byddai'r cynllun yn ddigonol ar gyfer

eleni, fodd bynnag, ar yr adeg hon roedd yr Ymddiriedolaeth yn modelu ei syniadau ar swyddogaethau megis yr effaith ar y model ymateb clinigol newydd a beth oedd y bwlbch rhwng yr adnoddau a'r galw cyfredol, a byddai'r cyfan o'r rhain yn rhan o'r amcangyfrifon. Cynghorodd y Cyfarwyddwr Meddygol ymhellach y byddai'n ofynnol dadansoddi ymhellach ac y byddai hyn yn cymryd amser.

- Rhaid i'r Ymddiriedolaeth fod yn ofalus nad yw'n gor-addo unrhyw beth yn y cynllun.

Tynnodd Cadeirydd y Bwrdd sylw'r Bwrdd at Ddiwrnod Datblygiad y Bwrdd ar 11 Awst 2015 a chynghorodd fod y cyfarfod heddiw wedi bod yn ragflaenydd i'r diwrnod hwnnw o ran yr eitemau i'w trafod yn y Diwrnod Datblygiad y Bwrdd.

PENDERFYNWYD:

- (1) nodi'r llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth;**
- (2) nodi'r sefyllfa bresennol o ran Cynllun Integredig Tymor Canolig 2015/16 y gellid ei gymeradwyo yn dilyn trafodaethau â Phrif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans a Dr Andrew Goodall;**
- (3) nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn cyflawni agweddau eraill y Cynllun Integredig Tymor Canolig 2015/16; a**
- (4) nodi'r trefniadau sy'n cael eu sefydlu i sicrhau cynhyrchu Cynllun Integredig Tymor Canolig tair blynedd yn 2016/17.**

51/15 DIWEDDARIAD 111

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh yr adroddiad a darparodd drosolwg o'r gwasanaeth 111. Roedd yn hanfodol bwysig fod y Memorandwm o Ddealltwriaeth ar gyfer trosglwyddo'r rhif 111 o GIG Lloegr i GIG Cymru yn cael ei gymeradwyo.

Gwahoddodd yr Is-gadeirydd sylwadau:

- Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Cyswllt Gweddnewid y Gweithlu y Bwrdd at gyflwyniad diweddar gan Gyfarwyddwr y Prosiect 111 i'r Fforwm Partneriaeth a oedd wedi darparu cam cadarnhaol iawn yn y broses wrth symud ymlaen.
- Cynghorodd Arweinydd y Prosiect 111 yr aelodau fod cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â staff yn cael eu trefnu yn y dyfodol agos.
- O ran y trefniadau llywodraethu, a oedd rhagor o eglurder ynghylch hyn. Cynghorodd Arweinydd y Prosiect 111 fod angen rhagor o waith i wneud y trefniadau rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Ymddiriedolaeth yn gwbl glir. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh y Bwrdd y byddai bwrdd llywodraethu integredig yn yr Ymddiriedolaeth i sicrhau fod yr holl feysydd wedi eu cwmpasu yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth o ran yr holl risgiau yn gysylltiedig â'r cynllun. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh y byddai Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cael eu diweddarau o dro i dro ar ddatblygiad, cynnydd a monitro'r gwasanaeth 111.
- Hysbysodd Arweinydd y Prosiect 111 y Bwrdd y byddent yn cael golwg pellach a

manylach ar y model gwasanaeth yn Niwrnod Datblygiad y Bwrdd ar 11 Awst 2015.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Meddygol fod y ffordd roedd gwasanaethau clinigol yn symud yn golygu y byddai ffocws ar yr holl ofal brys ac argyfwng y tu allan i'r ysbyty ac ar hyn o bryd nid oedd mor integredig ag y dylai fod. Roedd rhai gwendidau eithaf difrifol, yn enwedig o ran darpariaeth gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau ar draws Cymru. Byddai datblygiad 111, y cyfeiriadur gwasanaethau a'r llwybrau amgen yn cysylltu peth o'r gwaith parafeddygon braenaru a chyfraniad yr Ymddiriedolaeth yn gweithio â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau wedi ei gydnabod yn gyhoeddus ac roedd yn gam cadarnhaol wrth symud ymlaen.
- O ran y cyllid sicrhaodd Arweinydd y Prosiect 111 y Bwrdd fod rhagor o waith yn digwydd i sefydlu cost rhannu'r gwasanaeth ac ni fyddai'n disgyn yn gyfangwbl ar yr Ymddiriedolaeth ar ei phen ei hun.

PENDERFYNWYD:

- (1) **nodi'r diweddariad ar y prosiect 111 a'i aliniad strategol â'r rhaglen foderneiddio clinigol pum cam;**
- (2) **nodi'r llythyr oddi wrth Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol i Judith Page, Cadeirydd y Bwrdd Prosiect 111, ynghylch y penderfyniad lletya;**
- (3) **cymeradwyo derbyn y penderfyniad i letya'r prosiect 111;**
- (4) **nodi'r llythyr oddi wrth Gyfarwyddwr Prosiect 111 at Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn amlinellu'r gofynion lletya;**
- (5) **nodi trefniadau arweinyddiaeth Gweithrediaeth yr Ymddiriedolaeth a'r trefniadau cymorth a'r camau nesaf; a**
- (6) **dirprwyo Memorandwm o Ddealltwriaeth ar gyfer trosglwyddo'r rhif 111 o GIG Lloegr i GIG Cymru ac arwyddo'r ddogfen i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau.**

52/15 EITEMAU CYDSYNIO

Cyflwynwyd y Cofnodion Pwyllgorau isod i'r Bwrdd:

- Pwyllgor Cyflawni Ansawdd (o'r strwythur Pwyllgorau blaenorol) 31 Mawrth 2015
- Pwyllgor Archwilio 28 Mai 2015
- Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau 21 Ebrill 2015
- Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion 14 Mai 2015
- Tîm Partneriaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru 29 Ionawr 2015 a 25 Mawrth 2015
- Cyd-bwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys 27 Ionawr 2015 a 17 Mawrth 2015
- Pwyllgor Arbenigol Gwasanaethau Iechyd Cymru (Crynodeb o'r Prif Faterion) 16 Mawrth 2015

Adroddiad Interim Gwireddu Buddion

Roedd y Bwrdd i nodi a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad uchod.

PENDERFYNWYD: That

- (1) derbyn a mabwysiadu Cofnodion y Cyfarfodydd fel y'u cyflwynwyd;**
- (2) nodi'r Adroddiad Interim Gwireddu Buddion;**
- (3) nodi'r gwersi a ddysgwyd o'r ymarfer gwireddu buddion y Rhaglen Gweddnewid Strategol a bod y rhain wedi eu dwyn ymlaen i bortffolio newidd y Cynllun Integredig Tymor Canolig i gynhyrchu strategeth rheoli buddion cadarnach; a**
- (4) nodi'r newidiadau bach a ddigwyddodd ond ei bod yn parhau'n rhy gynnar i fod yn disgwyl gweld newidiadau sylweddol.**

PENDERFYNIAD I GYFARFOD MEWN SESIWN GAEEDIG

Cafodd cynrychiolwyr y wasg ac aelodau eraill y cyhoedd eu heithrio o weddill y cyfarfod wedi ystyried natur gyfrinachol y busnes i'w drafod, yn unol â gofynion Adran 1(2) y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960.

Ceir adroddiadau yn ymwneud â'r eitemau busnes yn y cofnodion hyn ar wefan yr Ymddiriedolaeth, www.ambulance.wales.nhs.uk